# Cyfres Arweinyddiaeth Well DARPL

**(Carfan Chwech a Saith, 2026)**

## Croeso

Diolch yn fawr am eich eirolaeth a'ch ymrwymiad i Gyfres Arweinyddiaeth Well DARPL. Edrychwn ymlaen at eich croesawu chi yn y garfan nesaf ar gyfer y gyfres hon, sy'n rhoi cyfle ar gyfer dysgu proffesiynol dwfn, cydweithredol sy'n canolbwyntio ar arweinyddiaeth wrth-hiliol gyda Thîm DARPL, academyddion, arbenigwyr yn y meysydd a charfan gref o arweinwyr gwrth-hiliol ledled Cymru.

Mae Cyfres Arweinyddiaeth Well DARPL wedi'i bwriadu ar gyfer arweinwyr ym maes Gwella Addysg, Datblygu Polisi, Ymchwil, Blynyddoedd Cynnar, Addysg Gynradd, Addysg Uwchradd ac Addysg Bellach, Gofal Plant a gwaith Chwarae. Mae croeso hefyd i arweinwyr gwaith ieuenctid.

Mae'r gyfres hon yn estyniad hanfodol o'r gwaith rhagarweiniol. Bydd arweinwyr eisoes wedi dechrau ar eu taith DARPL yng Nghyfres Arweinwyr / Llywodraethwyr DARPL. Mae'r nodau, yr amcanion dysgu a'r deilliannau dysgu ar gyfer y Gyfres Arweinyddiaeth Well wedi'u nodi'n fanwl yn y ddogfen hon.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost at Chantelle Haughton, Sylfaenydd-Gyfarwyddwr DARPL neu Kin Yu (Cydlynydd ELS) yn darpl@cardiffmet.ac.uk

**Ar ôl cwblhau Cyfres Arweinyddiaeth Well DARPL, bydd cyfranogwyr:**

- Yn cymryd rhan mewn digwyddiad llawn i rannu gwybodaeth ac yn cael eu gwahodd i fannau eraill ar gyfer rhannu gwybodaeth.
- Yn gweithio gyda Thîm DARPL i gyhoeddi blogiau / portreadau cydweithredol ar Gampws Rhithiol DARPL.
- Cael y cyfle i barhau i ymgysylltu a chefnogi drwy Gymuned Ymarfer, Ymarfer Myfyriol a Grŵp Ymchwil DARPL; Rhwydwaith Eiriolaeth DARPL (DAN); cyfleoedd DARPL ar gyfer ymgynghori a dysgu proffesiynol parhaus.

## Rhagofynion ac ymrwymiad

(1) Bydd pob cyfranogwr:

- yn Uwch Arweinydd,
- yn Llywodraethwr,
- mewn rôl haen uwch/haen ganol neu gydlynydd mewn addysg,
- mewn swydd gofal plant, swydd arwain gwaith chwarae neu arweinyddiaeth blynyddoedd cynnar, new
- ym maes datblygu polisi.

***Sylwch fod cyllid DARPL yn cynnig lleoedd am ddim i arweinwyr ym meysydd addysg, gofal plant a gwaith chwarae. Os ydych chi'n arweinydd ym meysydd Addysg Bellach, ôl-16, busnes neu gyd-destunau eraill, cysylltwch â ni i drafod y dewisiadau a'r costau:*** darpl@cardiffmet.ac.uk

(2) Dylai pob cyfranogwr fod wedi ymgymryd â chyfres wedi'i recordio DARPL ar gyfer Uwch Arweinwyr neu Lywodraethwyr neu Uwch Arweinwyr Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar (dolenni isod) cyn dechrau'r Gyfres Arweinyddiaeth Well hon.

| Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
|---|---|
| Cyfres wedi'i recordio ar gyfer Uwch Arweinwyr: https://darpl.org/courses/supporting-senior-leaders-on-their-anti-racist-journey/ | Cyfres wedi'i recordio ar gyfer Uwch Arweinwyr: https://darpl.cymru/courses/supporting-senior-leaders-on-their-anti-racist-journey/ |
| Cyfres wedi'i recordio ar gyfer Llywodraethwyr: https://darpl.org/courses/governors-series/ | Cyfres wedi'i recordio ar gyfer Llywodraethwyr: https://darpl.cymru/courses/cyfres-i-lywodraethwyr/ |
| Cyfres wedi'i recordio ar gyfer Uwch Arweinwyr Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar: https://darpl.org/courses/childcare-play-and-early-years-senior-leader/ | Cyfres wedi'i recordio ar gyfer Uwch Arweinwyr Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar: https://darpl.cymru/courses/gofal-plant-chwarae-ar-blynyddoedd-cynnar-cyfres-i-uwch-arweinwyr/ |

(3) Ar ddechrau'r Gyfres Arweinyddiaeth Well (Diwrnod 1), dylai pob cyfranogwr fod yn barod i drafod ei ddysgu a'r camau y mae wedi'u cymryd yn ei waith/cyd-destun ei hun yn ystod cyfres DARPL i Uwch Arweinwyr neu Lywodraethwyr.

(4) Bydd angen i gyfranogwyr ymrwymo i fynychu'r gyfres **gyfan** o sesiynau, ynghyd â dau ddiwrnod gwaith ym mhob tymor ar ymholiad myfyriol/ymchwil gweithredol ac ymrwymiad i weithredu i wreiddio egwyddorion arweinyddiaeth wrth-hiliol mewn ymarfer.

(5) Bydd angen i gyfranogwyr ymrwymo i fuddsoddi mewn amser dysgu dan arweiniad annibynnol, er mwyn ymrwymo i ymgymryd â darllen parhaus, datblygu polisi ac ymarfer ac ymholiad myfyriol/ymchwil gweithredol yn eu sefydliad dysgu.

(6) Caiff holl ddyddiadau'r gyfres eu rhoi ymlaen llaw. Os nad yw cyfranogwr yn gallu bod yn bresennol mewn sesiwn oherwydd amgylchiadau annisgwyl, dylid anfon ymddiheuriad at darpl@cardiffmet.ac.uk

## Allbynnau Unigol a Chyfleoedd i gael Effaith

- Fel rhan o'r dysgu proffesiynol, bydd disgwyl i'r holl gyfranogwyr roi ymyriadau arweinyddiaeth wrth-hiliol ar waith yng nghyd-destun eu gwaith eu hunain, a chael cymorth i wneud hynny.
- Bydd tasgau Ymarfer Myfyriol annibynnol yn cael eu gosod drwy gydol y gyfres er mwyn i arweinwyr eu harchwilio yng nghyd-destun eu harweinyddiaeth eu hunain.
- Fel rhan o'r tasgau astudio dan gyfarwyddyd, bydd yr holl gyfranogwyr yn cael cyfle i greu blog myfyriol (*500 – 1000 o eiriau*) i'w gyhoeddi ar Gampws Rhithiol DARPL (dewisol).

## Nodau:

Nod Cyfres Arweinyddiaeth Well (ELS) DARPL yw cefnogi, herio ac ymestyn dysgu proffesiynol gwrth-hiliol gydag arweinwyr ym maes addysg, gofal plant, gwaith chwarae a'r blynyddoedd cynnar sydd eisoes wedi ymgymryd â Chyfres Arweinyddiaeth Well DARPL neu Gyfres DARPL i Lywodraethwyr *(wedi'i chymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, 2023)*. Nod yr ELS yw arfogi arweinwyr i ddatblygu offer, strategaethau ac egwyddorion a fydd yn ymgorffori arweinyddiaeth ac effaith wrth-hiliol yn eu cyd-destun. Mae'r ELS yn cyfrannu at wireddu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru (ARWAP) a Chwricwlwm i Gymru gan ystyried '*Adroddiad Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin: Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd i Gymru, 2021*'.

## Amcanion:

Nod Cyfres Arweinyddiaeth Well DARPL yw rhoi cyfle i arweinwyr wneud y canlynol:

- Cydnabod gwerth a phwysigrwydd dysgu proffesiynol gwrth-hiliol fel continwwm.
- Eich galluogi i werthfawrogi ffyrdd newydd o weithio dros newid hanfodol gweithredol cynaliadwy drwy arweinyddiaeth broffesiynol wrth-hiliol.
- Rhannu profiadau cyfoedion i gyfoedion mewn gofodau deialog ar gyfer datblygu cymuned ymarfer ac effaith ar arweinyddiaeth yn genedlaethol.
- Galluogi arweinwyr i ddatblygu/cyfrannu at gynlluniau strategol sy'n cyd-fynd ag Argymhellion Adroddiad yr Athro Charlotte Williams ac sy'n gysylltiedig â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru (ARWAP).

- Defnyddio a chyd-lunio'r offer i arfarnu'n feirniadol a llywio eu diwylliant sefydliadol eu hunain.
- Datblygu sgiliau ymchwil ac ymholi academaidd a bod yn foesegol ymwybodol.
- Archwilio a datblygu hyfedredd i fod yn ystyriol o hil.

# Deilliannau Dysgu Proffesiynol

Ar ôl cwblhau Cyfres Arweinyddiaeth Well DARPL yn llwyddiannus, bydd y dysgwyr proffesiynol yn gallu:

1) Adnabod ymarfer proffesiynol ac arweinyddiaeth wrth-hiliol a chynyddu ymwybyddiaeth drwy hunan-fyfyrio dilys estynedig gan gynnwys archwilio gwynder, deinameg pŵer mewn arweinyddiaeth ac ymarfer proffesiynol.

2) Diffinio (yn eu cyd-destun proffesiynol eu hunain) arferion allweddol arweinyddiaeth wrth-hiliol a chydraddoldeb hiliol.

3) Arwain / meithrin mannau diogel a dewr yn eu sefydliadau/ymarfer proffesiynol drwy ddiwygio polisïau ac arferion.

4) Creu deunyddiau, polisïau ac amgylcheddau i gefnogi ymarfer a llesiant proffesiynol gwrth-hiliol.
5) Rhoi dysgu proffesiynol ar waith drwy ymholiad myfyriol/ymchwil gweithredol / treialu / adolygu yng nghyd-destun eu gwaith eu hunain.

6) Ymchwilio i'r heriau / rhwystrau sy'n bodoli i arweinwyr haen ganol ac uwch wrth symud oddi wrth arferion cynhwysol generig i ddiwylliant gwrth-hiliol ar draws y sefydliad cyfan.

7) Pwyso a mesur a dadansoddi'r camau a gymerwyd i ddiwygio Cynlluniau Gwella a Chynlluniau Tegwch Strategol, wrth ystyried gwrth-hiliaeth.

8) Datblygu meddwl beirniadol ar gydraddoldeb hiliol ac mewn perthynas ag ysgrifennu/ymchwil academaidd.

# Dulliau Dysgu ac Addysgu:

Bydd amrywiaeth o ddulliau dysgu ac addysgu wedi'u trefnu yn cael eu defnyddio yn ystod y gyfres, gan gynnwys gweithdai wyneb yn wyneb a gweminarau, sesiynau rhithiol, gwaith annibynnol/grŵp, dysgu annibynnol dan arweiniad, dysgu adeiladol a chydweithredol cyfoedion i gyfoedion.

Bydd seminarau a gweithdai yn darparu cyfleoedd i gymunedau ymarfer wneud y canlynol:

- trafod materion allweddol yn ymarferol;
- archwilio ymholiad myfyriol yn ei gyd-destun;
- rhannu ymyriadau a wnaed ar gyfer gwella;
- myfyrio ar eich darllen ehangach;
- rhannu profiadau ac allgymorth cymunedol;
- tynnu sylw at eich anghenion dysgu gwrth-hiliol mewn cyd-destun.

Byddwn yn cysylltu’n glir â theori a pholisi perthnasol drwy gydol y gyfres.

# Amserlen ELS DARPL – Carfan Chwech a Saith:

**Dyddiadau i'w cadarnhau (yn amodol ar fanylion cyllido gan Lywodraeth Cymru).**

**(gyda chyfieithu ar y pryd)**

## Cyfres Arweinyddiaeth Uwch – Amserlenni Carfan 6 De Cymru

| Diwrnod: | Dyddiad: | Amseroedd: | Modd: | Teitl: |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 22ain Medi 2026 | 9.00-15.30 | yn bersonol | **Croeso, cyflwyniad i ELS, arolwg cyn y cwrs**<br><br>**Arwain Newid**<br><br>**Croesi'r llinell**<br><br>**Uwchlaw ac Islaw'r Llinell** |
| 2 | 24ain Medi 2026/28ain Medi 2026<br><br>(De a Gogledd gyda'i gilydd) | 9.30-13.00 | cydamserol ar-lein | **Polisi, Ymchwil ac Ymarfer** |
| 3 | 7fed Hydref 2026 | 9.00-15.30 | yn bersonol | **Ailfeddwl am eich beth, pam a sut: Diwylliant a Chwricwlwm** |
| 4 | 14 Hydref 2026<br><br>(De a Gogledd gyda'i gilydd) | 9.30-13.00 | cydamserol ar-lein | **Ymarfer Myfyriol a Myfyrio Beirniadol**<br><br>**Sesiwn myfyrio ar y cyd dan arweiniad carfan ar ddysgu o Ddiwrnod 1 a 2** |
| 5 | 5ed Tachwedd 2026<br><br>(De a Gogledd gyda'i gilydd) | 9.30-13.00 | cydamserol ar-lein | **Cysylltiadau Cymunedol**<br><br>**Sesiwn myfyrio ar y cyd dan arweiniad y garfan ar ddysgu o Ddiwrnod 3** |
| 6 | 26ain Tachwedd 2026 | 9.00-15.30 | yn bersonol | **Symposiwm Llawn – Myfyrio, lledaenu a dathlu datblygu arweinyddiaeth ar y cyd dan arweiniad y garfan**<br><br>**Gwerthuso DARPL ELS** |

# Cyfres Arweinyddiaeth Uwch – Amserlenni Carfan 6 Gogledd Cymru

| Diwrnod: | Dyddiad: | Amserau: | Modd: | Teitl: |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 17 Medi 2026 | 9.00-15.30 | wyneb yn wyneb | **Croeso, cyflwyniad i CAU, arolwg cyn y cwrs**<br><br>Arwain Newid<br><br>Croesi'r llinell<br><br>Uwchlaw ac islaw'r llinell |
| 2 | 24 Medi 2026 /<br>28 Medi 2026<br><br>(De a Gogledd gyda'i gilydd) | 9.30-13.00 | cydamserol ar-lein | **Ymchwil Polisi ac Ymarfer** |
| 3 | 14eg Hydref 2026 | 9.30-13.00 | cydamserol ar-lein | **Ymarfer Myfyriol a Myfyrio Beirniadol**<br><br>**Sesiwn myfyrio ar y cyd dan arweiniad carfan ar ddysgu o Ddiwrnod 1 a 2** |
| 4 | 20 Hydref 2026 | 9.00-15.30 | wyneb yn wyneb | **Ailfeddwl eich beth, pam a sut: Diwylliant a'r Cwricwlwm** |
| 5 | 5 Tachwedd 2026<br><br>(De a Gogledd gyda'i gilydd) | 9.30-13.00 | cydamserol ar-lein | **Cysylltiadau Cymunedol**<br><br>**Sesiwn myfyrio ar y cyd dan arweiniad y garfan ar ddysgu o Ddiwrnod 4** |
| 6 | 23 Tachwedd 2026 | 9.00-15.30 | wyneb yn wyneb | **Symposiwm Llawn i Gloi** – Myfyrio, lledaenu a dathlu datblygiad arweinyddiaeth ar y cyd dan arweiniad y garfan<br><br>Gwerthusiad o DARPL CAU |

## Cyfres Arweinyddiaeth Uwch – Amserlenni Carfan 7 De Cymru

| Diwrnod: | Dyddiad: | Amserau: | Modd: | Teitl: |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 13 Ionawr 2027 | 9.00-15.30 | wyneb yn wyneb | **Croeso, cyflwyniad i CAU, arolwg cyn y cwrs**<br><br>Arwain Newid<br><br>Croesi'r llinell<br><br>Uwchlaw ac islaw'r llinell |
| 2 | 27 Ionawr 2027 | 9.30-13.00 | cydamserol ar-lein<br><br>(gyda'i gilydd) | **Ymarfer Myfyriol a Myfyrio Beirniadol**<br><br>Sesiwn fyfyrio ar y cyd dan arweiniad y garfan ar yr hyn a ddysgwyd o Ddiwrnod 1 |
| 3 | 18 Chwefror 2027 | 9.00-15.30 | wyneb yn wyneb | **Ailfeddwl eich beth, pam a sut: Diwylliant a'r Cwricwlwm** |
| 4 | 3 Mawrth 2027 | 9.30-13.00 | cydamserol ar-lein<br>(De a Gogledd gyda'i gilydd) | **Cysylltiadau Cymunedol**<br><br>Sesiwn fyfyrio ar y cyd dan arweiniad y garfan ar yr hyn a ddysgwyd o Ddiwrnod 3 |
| 5 | 10 Mawrth 2027 | 9.30-13.00 | cydamserol ar-lein | **Ymchwil Polisi ac Ymarfer** |
| 6 | 24 Mawrth 2027 | 9.00-15.30 | wyneb yn wyneb | **Symposiwm Llawn i Gloi** – Myfyrio, lledaenu a dathlu datblygiad arweinyddiaeth ar y cyd dan arweiniad y garfan<br><br>Gwerthusiad o DARPL CAU |

## Cyfres Arweinyddiaeth Uwch – Amserlenni Carfan 7 Gogledd Cymru

| Diwrnod: | Dyddiad: | Amserau: | Modd: | Teitl: |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 20 Ionawr 2027 | 9.00-15.30 | wyneb yn wyneb | **Croeso, cyflwyniad i CAU, arolwg cyn y cwrs**<br><br>Arwain Newid<br><br>Croesi'r llinell<br><br>Uwchlaw ac islaw'r llinell |
| 2 | 27 Ionawr 2027 | 9.30-13.00 | cydamserol ar-lein | **Ymarfer Myfyriol a Myfyrio Beirniadol**<br><br>Sesiwn fyfyrio ar y cyd dan arweiniad y garfan ar yr hyn a ddysgwyd o Ddiwrnod 1 |
| 3 | 17 Chwefror 2027 | 9.00-15.30 | wyneb yn wyneb | **Ailfeddwl eich beth, pam a sut: Diwylliant a'r Cwricwlwm** |
| 4 | 3 Mawrth 2027 | 9.30-13.00 | cydamserol ar-lein<br><br>(De a Gogledd gyda'i gilydd) | **Cysylltiadau Cymunedol**<br><br>Sesiwn fyfyrio ar y cyd dan arweiniad y garfan ar yr hyn a ddysgwyd o Ddiwrnod 3 |
| 5 | 10 Mawrth 2027 | 9.30-13.00 | cydamserol ar-lein<br><br>(De a Gogledd gyda'i gilydd) | **Ymchwil Polisi ac Ymarfer** |
| 6 | 18 Mawrth 2027 | 9.00-15.30 | wyneb yn wyneb | **Symposiwm Llawn i Gloi** – Myfyrio, lledaenu a dathlu datblygiad arweinyddiaeth dan arweiniad y garfan, Gwerthuso DARPL CAU |

# Manylion y Llawlyfr – *Gwybodaeth am Gynnwys y Sesiwn a'r Deunydd Darllen:*

Diwrnod Hunan-werthuso gyda Chefnogaeth (Sesiwn Lawn).

Gweithdai ffocws ar thema.

Bydd y sesiynau'n ddeinamig er mwyn creu gofod deialog i drafod y dysgu a chysyniadau newydd, i gyd-adeiladu gwybodaeth, rhannu ymholiad myfyriol / ymchwil gweithredol a wnaed, a chreu llif a phroses o ddysgu cydweithredol. Er ein bod yn cadw at nodau a deilliannau dysgu'r gyfres, mae'r mannau deialogaidd yn hyblyg er mwyn diwallu anghenion a datblygiad y garfan drwy gydol y gyfres.

**Diwrnod 1 wyneb yn wyneb (Gogledd/De Cymru):**

***Arwain Newid - Croesi'r llinell***

***Uwchben / o dan y llinell***

Deilliant Dysgu/cysylltiadau rhif(au): 1, 2, 3, 4, 5, 7

Rhifau argymhellion yr Athro Williams: 23, 24, 26, 30, 31, 32, 37

Y diweddaraf am ystyried y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru Wrth-hiliol (ARWAP)-2024: Pennod ar arweinyddiaeth – https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol-diweddariad-2024-html

**Diwrnod 2 cydamserol ar-lein (Gogledd a De Cymru):**

***Rhan 1: Ymarfer Myfyriol a Myfyrio'n Feirniadol (gweminar)***

***Rhan 2: Myfyrdod ar y Cyd dan arweiniad y Garfan ar yr hyn a ddysgwyd o Ddiwrnod 1***

Deilliant Dysgu/cysylltiadau rhif(au): 1, 3, 5, 8

Rhifau argymhellion yr Athro Williams: 30, 31, 32, 34, 37

Y diweddaraf am ystyried y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru Wrth-hiliol (ARWAP)-2024: Pennod Arweinyddiaeth –

https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol-diweddariad-2024-html

**Diwrnod 3 wyneb yn wyneb (Gogledd/De Cymru):**

***Ailystyried eich beth, pam a sut: Diwylliant a Chwricwlwm***

Deilliant Dysgu/cysylltiadau rhif(au): 2, 4, 5, 8

Rhifau argymhellion yr Athro Williams: 30, 32, 34, 35

Y diweddaraf am ystyried y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru Wrth-hiliol (ARWAP)-2024: Pennod Arweinyddiaeth –

https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol-diweddariad-2024-html

**Diwrnod 4 cydamserol ar-lein (Gogledd a De Cymru):**

***Rhan 1: Cysylltiadau Cymunedol***

***Rhan 2: Myfyrdod ar y cyd dan arweiniad y Garfan ar yr hyn a ddysgwyd o Ddiwrnod 3***

Deilliant Dysgu/cysylltiadau rhif(au): 2, 4, 5, 7, 8

Rhifau argymhellion yr Athro Williams: 24, 27, 28, 29, 30, 31, 32, 34, 35, 37

Y diweddaraf am ystyried y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru Wrth-hiliol (ARWAP)-2024: Pennod Arweinyddiaeth –

https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol-diweddariad-2024-html

**Diwrnod 5 cydamserol ar-lein (Gogledd a De Cymru):**

***Polisi, Ymchwil ac Ymarfer***

Deilliant Dysgu/cysylltiadau rhif(au): 1, 2, 6, 7, 8

Rhifau argymhellion yr Athro Williams: 23, 30, 31, 32, 34

Y diweddaraf am ystyried y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru Wrth-hiliol (ARWAP)-2024: Pennod Arweinyddiaeth –

https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol-diweddariad-2024-html

**Sesiynau Cymorth Taro mewn bob Tymor a Sgyrsiau Herio (dewisol)**

Cyfranogwyr y garfan i arwain gyda'u cwestiynau / syniadau – Tîm DARPL a'i bartneriaid i gefnogi a herio.

Myfyrio ar y Cyd.

**Diwrnod 6: Symposiwm Lawn**

***Myfyrio ar y Cyd dan arweiniad y Garfan, Lledaenu a Dathlu Datblygu Arweinyddiaeth***

***Gwerthuso ELS DARPL***

Deilliant Dysgu/cysylltiadau rhif(au): 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8

Y diweddaraf am ystyried y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru Wrth-hiliol (ARWAP)-2024: Pennod Arweinyddiaeth –

https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol-diweddariad-2024-html

# Darllen Gofynnol

Coghlan, D. (2019) *Doing Action Research in your own organisation*. London: Sage

Diangelo, R. (2022) *Nice Racism*. *How Progressive White People Perpetuate Racial Harm*. NY: Penguin

Gilborn, D. (2024) White Lies. Racism, Education and Critical Race Theory. London: Routledge

Pears, R. and Shields, G. (2022) *Cite them Right*. The essential referencing guide. London: Bloomsbury study skills.

Rutherford, A. (2020) *How to argue with a racist. History, science, race and reality.* London. W & N publishers.

Warmington, P. (2024) Permanent racism. Race, class and the myth of postracial Britain. Policy Press

Wilson, H and Kara, B. (2022) *Diverse Educators: A Manifesto*. London: University of Buckingham Press.

# Deunydd Darllen a Argymhellir

## Llyfrau / Penodau:

Akala (2018) Natives. London: Two Roads

Boakye, J (2022) *I heard what you said: A Black Teacher, a white system, a revolution in education*. London: Pan Macmillan

Campbell-Stephens, R. M. (2021). 'Introduction: Global Majority Decolonising Narratives'. Yn *Educational Leadership and the Global Majority* (tt. 1-21). Palgrave Macmillan, Cham.

Devarakonda, C. (2020) *Promoting Inclusion and Diversity in Early Years Settings: A Professional Guide to Ethnicity, Religion, Culture and Language.* London: Jessica Kingsley Publishers.

Hammond, Z.  (2014) *Culturally Responsive Teaching & the Brain.* London: Sage.

Kadiwal, L., & Abu Moghli, M. (2021). *Decolonising the curriculum beyond the surge: Conceptualisation, positionality and conduct. London Review of Education*.

Kinouani, G. (2021) *Living While Black*. London: Penguin

Moncrieffe, M.L., Fakunle, O.,Kustatscher, M. and and Olsson Rost, A.  (2024) (eds.), *BERA Guide to Decolonising the Curriculum*

Smidt, S. (2020) *Creating an Anti-Racist Culture in the Early Years: An Essential Guide for Practitioners.* London: Routledge

Sealey-Ruiz (2020) *Racial Literacy Model*. https://www.yolandasealeyruiz.com/racial-literacy-project

Schucan Bird, K., a Pitman, L. (2020). 'How diverse is your reading list? Exploring issues of representation and decolonisation in the UK'. *Higher Education*, *79*(5), 903-920.

Wallace, M. and Wray, A. (2021) *Critical Reading and Writing for Postgraduates*. London: Student Success. Sage.

## Polisi:

Davis, S. Haughton, C., Chapman, S., Okeke, R., Smith, M., Yafele, A., Yu, K. (2021)  *Recriwtio a Chadw athrawon o gefndiroedd Lleiafrifol Ethnig yng Nghymru*. Ar gael ar-lein yn: https://hwb.gov.wales/api/storage/24abc334-d4a3-4486-b1db-f3c392327152/adroddiad-ar-brofiadau-byw-athrawon-ac-arweinwyr-ysgolion-canol-ac-uwch-o-gefndiroedd-lleiafrifoedd-ethnig.pdf

CGA (2019 a 2020) Cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu ysgolion yng Nghymru – Adroddiadau Cam 2 a Cham 3 ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Joseph-Salisbury R. (2020) *Race and racism in English secondary schools*. Runnymede Trust. Ar gael yn: 61bcc0cc2a023368396c03d4_Runnymede Secondary Schools report FINAL.pdf (website-files.com) (cyrchwyd 8fed Mawrth 2024).

Cynghrair Hil Cymru (2021) Dangoswch inni ei fod o Bwys Ichi. Abertawe: Cynghrair Hil Cymru. Ar gael ar-lein yn: https://racealliance.wales/wp-content/uploads/2021/05/Show-Us-You-Care-Executive-Summary-Welsh.pdf

Runnymede Trust (2019) Barriers Report: The Impact of Racism on Black Teachers. Ar gael ar-lein yn: https://neu.org.uk/barriers-report-impact-racism-black-teachers

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2021) set glir o argymhellion yn 'Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin: Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd' https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig-cwricwlwm-newydd-adroddiad-terfynol.pdf

Llywodraeth Cymru (2021) Cynllun Recriwtio Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon. Ar gael ar-lein yn:https://llyw.cymru/cynllun-recriwtio-pobl-ddu-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig-ar-gyfer-addysg-gychwynnol-i-athrawon-html

Llywodraeth Cymru, (2022) Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Ar gael ar-lein yn: https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol

Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru (2021) ar gyfer 2030. Ar gael ar-lein yn: https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2021-03/race-equality-action-plan-an-anti-racist-wales_2.pdf

Williams, C. (2021). Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin: Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd. Ar gael ar-lein yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig-cwricwlwm-newydd-adroddiad-terfynol.pdf

## Cyfnodolion:

British Education Research Association Journal (BERA) - https://www.bera.ac.uk/resources/all-publications/bera-journals

Davis, S., Haughton, C., Chapman, S., Okeke, R., Yafele, A., Yu, K., Smith, M. (2023) The recruitment and retention of teachers of colour in Wales. An ongoing conundrum? *The Curriculum Journal.* Online at: https://bera-journals.onlinelibrary.wiley.com/toc/14693704/2023/34/1

Davis, S., Watkins, S., Haughton, C., Oliver, E., Farag, J., Webber, P., Goold, S. (2024) Re-imagining a decolonised, anti-racist curriculum within initial teacher education in a Welsh university. https://doi.org/10.1002/berj.4007

Equity in Education and Society. Sage. https://journals.sagepub.com/doi/full/10.1177/27526461221131099

Race Ethnicity and Education, Taylor and Francis. Ar gael ar-lein yn: https://www.tandfonline.com/toc/cree20/current

## Deunydd Darllen Pellach a Argymhellir:

Arday, J., Zoe Belluigi, D., & Thomas, D. (2021). 'Attempting to break the chain: reimaging inclusive pedagogy and decolonising the curriculum within the academy'. *Educational Philosophy and Theory*, *53*(3), 298-313.

Bhopal, K. (2014). *The experiences of BME academics in higher education: aspirations in the face of inequality*. Leadership Foundation for Higher Education Stimulus Papers.

Bhopal, K. (2020) 'Confronting White privilege: the importance of intersectionality in the sociology of education'. *British journal of Sociology of Education*. 41: 6, tt. 807 – 16.

Bhopal, K a Rhamie, J. (2013). 'Initial teacher training: understanding 'race,' diversity and inclusion'. *Race Ethnicity and Education*.17*(3)*, 304–325.

Campbell-Stephens, R. M. (2021). 'Introduction: Global Majority Decolonising Narratives'. Yn *Educational Leadership and the Global Majority* (tt. 1-21). Palgrave Macmillan, Cham.

Mai, T, Whitlock, J. (2022) *How to respond with compassion when someone is hurt by Racism*. [ar-lein]. Ar gael yn https://accelerate.uofuhealth.utah.edu/equity/how-to-respond-with-compassion-when-someone-is-hurt-by-racism